

Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2023-24

Hydref 2024

1. Cyflwyniad

- Sefydlwyd rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ('yr Asesydd') gan Lywodraeth Cymru i bontio'r bwlch rhwng diwedd cyfnod pontio Brexit a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru.
- Dyma drydydd adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar weithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd. Er bod adroddiadau blaenorol wedi ymdrin ag agweddau ehangach y maes polisi hwn, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar drefniadau craffu blynyddol y Pwyllgor ar waith yr Asesydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd diweddar yn y maes hwn, gan gynnwys drwy gyhoeddi papur gwyn ar drefniadau llywodraethu yn y dyfodol.
- Ar 18 Gorffennaf 2024, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Nerys Llewelyn-Jones, yr Asesydd, ac Anna Heslop a Lynda Warren, y ddau Ddirprwy Asesydd.



2. Cyflwyniad

Adnoddau

- 4.** Yn ei adroddiad yn 2023, mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch capasiti ac adnoddau swyddfa'r Asesydd. Mewn ymateb, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad a gwnaeth nifer o ymrwymadau i fynd i'r afael â'r mater, gan gynnwys:

 - Creu rôl Dirprwy Asesydd;
 - Cynnydd yn nifer y staff sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol; a
 - Chynnydd mewn cyllid er mwyn gallu caffael cymorth ac arbenigedd drafftio allanol.
- 5.** Hysbysebwyd rôl y Dirprwy Asesydd ym mis Rhagfyr 2023. Penodwyd dau Ddirprwy Asesydd, Anna Heslop a Lynda Warren, ym mis Mai 2024.
- 6.** Amlygodd Dr Llewelyn-Jones fod adnoddau yn parhau i fod yn her i'r swyddfa. Er bod penodi'r Dirprwy Aseswyr wedi ychwanegu rhywfaint o gapasiti, nid oedd y cynnydd mewn adnoddau wedi bod mor sylweddol ag y gallai ymddangos ar yr olwg gyntaf, gan fod y ddau ddirprwy wedi'i gontractio i weithio dau ddiwrnod yr wythnos.
- 7.** Nid oedd nifer y staff sy'n darparu cymorth ysgrifenyddol ond wedi cynyddu gan hanner y nifer cyfwerth ag amser llawn. Dywedodd Dr Llewelyn-Jones fod y lefelau staffio presennol yn annigonol i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith cynyddol yn ei swyddfa. Dywedodd fod y swyddfa wedi gwneud defnydd o leoliadau myfyrwyr PhD mewn ymgais i gau'r bwlch, ond nid oedd hyn yr un peth â chael staff parhaol.
- 8.** Eglurodd Dr Llewelyn-Jones fod caffael arbenigedd cyfreithiol allanol hefyd wedi bod yn her sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a'i fod wedi cymryd amser ac adnoddau. Awgrymodd y byddai effeithlonrwydd a chysondeb gwaith swyddfa'r Asesydd yn cael ei wella drwy gael arbenigedd cyfreithiol parhaol o fewn y tîm.

Monitro effaith

- 9.** Mynegodd y Pwyllgor hwn siom yn ei adroddiad yn 2023 nad oedd trefniadau ffurfiol wedi'u rhoi ar waith gan yr Asesydd na Llywodraeth Cymru i fonitro effaith gwaith yr Asesydd.

10. Roedd adroddiad blynyddol yr Asesydd ar gyfer 2023-24 yn egluro bod y swyddfa wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu proses adolygu ffurfiol mewn perthynas â chyflwyniadau y mae wedi'u cael. Dywedodd Anna Heslop wrth y Pwyllgor y gallai monitro effaith amgylcheddol argymhellion yr Asesydd fod yn heriol, yn enwedig gan y byddai effaith rhai argymhellion yn fwy hirdymor. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y swyddfa'n datblygu ffyrdd o fonitro hyn ac adrodd arno.

11. Gan gyfeirio at rôl Llywodraeth Cymru wrth fonitro gwaith yr Asesydd, dywedodd Dr Llewelyn-Jones nad oedd wedi cael unrhyw adborth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â pherfformiad y swyddfa hyd yma.

12. Eglurodd Anna Heslop fod swyddfa'r Asesydd hefyd yn datblygu prosesau i fonitro ei berfformiad mewnol. Dywedodd efallai na fyddai natur fanwl y gwaith monitro mewnol hwn yn addas i'w gyhoeddi gan y gallai gynnwys trafodaethau mewnol sensitif. Pan heriwyd hyn, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod swyddfa'r Asesydd wedi ymrwymo i dryloywder ac y byddai ei adroddiad blynyddol yn cynnwys manylion am ei berfformiad.

Ymgysylltu â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland

13. Tynnodd Dr Llewelyn-Jones sylw at y gwaith parhaus rhwng yr Asesydd a'i gymheiriaid yn Lloegr/Gogledd Iwerddon a'r Alban, y Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland. Yn 2022, cytunodd y tri sefydliad ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gydweithredu a rhannu gwybodaeth. Dywedodd Dr Llewelyn-Jones y byddai swyddfa'r Asesydd yn cynnal cyfarfod teirochrog rhwng y sefydliadau yng Nghaerdydd ym mis Awst 2024. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cynnal y digwyddiad yng Nghymru, o ystyried y datblygiadau parhaus mewn perthynas â llywodraethu amgylcheddol.

Ein barn ni

Er gwaethaf rhai ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion o ran adnoddau yn swyddfa'r Asesydd, mae'n amlwg bod heriau o ran adnoddau yn parhau. Er bod ychwanegu Dirprwy Aseswyr wedi cyfrannu rhywfaint at leddfau pwysau o ran y llwyth gwaith, mae'n rhy gynnar i weld y canlyniadau a fydd yn deillio o'r penodiadau. Ymddengys bod y cynnydd mewn cymorth ysgrifenyddol yn llai na'r hyn sydd ei angen.

Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu trosglwyddo o'r trefniadau interim i drefniadau llywodraethu parhaol maes o

law. Mae'n naturiol, mewn amgylchiadau o'r fath, fod ffocws yn symud i sefydlu'r corff newydd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau bod yr adnoddau staffio yn swyddfa'r Asesydd yn ddigonol i sicrhau bod y cyfnod pontio yn llyfn ac yn effeithlon. At hynny, rhaid i swyddfa'r Asesydd allu cyflawni ei rôl a'i chyfrifoldebau presennol yn effeithiol wrth i'r cyfnod pontio fynd rhagddo.

Roeddem yn falch o gael sicrwydd gan swyddfa'r Asesydd ei bod yn datblygu fframweithiau ar gyfer monitro perfformiad. Rydym yn cydnabod bod diffyg adnoddau wedi gwneud hyn yn anodd hyd yma. Credwn y dylai hyn barhau i fod yn flaenoriaeth dros y misoedd nesaf, wrth i'r tîm newydd ddatblygu ei drefniadau gwaith a pharatoi ar gyfer y newid i gorff diogelu'r amgylchedd parhaol.

Rydym yn croesawu trefniadau cydweithio yr Asesydd gyda Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland, a chredwn y bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y newid i drefniadau llywodraethu parhaol. Yn yr un modd, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland wrth iddi ddatblygu ei threfniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu ag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru i sicrhau bod gan ei swyddfa ddigon o adnoddau i ymdrin â'i lwyth gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad yw ei waith yn cael ei golli wrth i ffocws symud i'r cyfnod pontio i'r corff newydd.

Argymhelliad 2. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymgysylltu ag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru i ystyried a ellir rhoi trefniadau staffio ar waith, gan gynnwys drwy secondiadau, i hwyluso'r broses o drosglwyddo profiad ac arbenigedd yn ystod y cyfnod pontio.

Argymhelliad 3. Dylai swyddfa Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru gynnwys yn ei adroddiad blynyddol nesaf fanylion am y gwaith y mae wedi'i wneud i fonitro ei berfformiad ac effaith ei waith.

3. Gwaith yr Asesydd

Adroddiadau

14. Yn ei Adroddiad yn 2023, mynegodd y Pwyllgor hwn siom ynghylch y diffyg adroddiadau a gyhoeddwyd gan swyddfa'r Asesydd, gyda dim ond un adroddiad - ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) - wedi'i gyflwyno i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod cyfyngiadau ar gapasiti ac adnoddau yn faterion allweddol sy'n cyfrannu at yr oedi wrth lunio adroddiadau.

15. Ym mis Mehefin 2022, hysbysodd Dr Llewelyn-Jones y Pwyllgor ei bod yn cwblhau adroddiad ar goedwigaeth a'i bod yn gobeithio y byddai'n cael ei gyhoeddi "yn y dyfodol agos". Yn ystod y sesiwn graffu ym mis Mehefin 2023, dywedodd y bydd yr adroddiad coedwigaeth "gyda ni yn glou iawn nawr". Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y gwaith hwn wedi'i gyhoeddi eto.

16. Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024, dywedodd Dr Llewelyn-Jones ei bod yn "siomedig nad ydw i wedi gallu sicrhau cyhoeddi adroddiadau yn ystod y cyfnod diwethaf yma". Aeth ymlaen i egluro:

"Y pum adroddiad sydd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yw: coed, gwrychoedd, safleoedd gwarchoddedig, sancsiynau sifil ac ansawdd dŵr. Mae paratoi'r adroddiadau hyn wedi ymestyn y tu hwnt i'r llinell amser cychwynnol oherwydd cynnwys materion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys canlyniadau pellach i'w hystyried ar y materion yma, a hefyd lefel y gwaith ychwanegol sydd wedi dod at AIDAC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf."

17. Nododd Dr Llewelyn-Jones fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y deufis diwethaf, yn enwedig gyda'r adroddiadau coedwigaeth a gwrychoedd, a oedd bron â chael eu cwblhau.

Cyflwyniadau

18. Yn y cyfnod 2023-24, cafodd yr Asesydd naw cyflwyniad, a oedd yn gynydd o'r chwe cyflwyniad a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y cyflwyniadau'n ymdrin â phynciau fel safleoedd gwarchoddedig, ansawdd dŵr, allyriadau amonia o ffynonellau amaethyddol, gorchmynion cadw coed, cynllunio datblygu lleol, a chloddio glo brig. Fodd bynnag, nid oedd swyddfa'r Asesydd wedi bwrw ymlaen â'r holl gyflwyniadau.

19. Awgrymodd Dr Llewelyn-Jones mai'r rheswm dros y cynnydd mewn cyflwyniadau oedd ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl yr Asesydd. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ymhellach, roedd strategaeth gyfathrebu newydd yn cael ei datblygu, gyda'r nod o gynyddu amlygrwydd y swyddfa ac egluro ei rôl i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rhybuddiodd y byddai cynnydd mewn cyflwyniadau o ganlyniad i well ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn cael effaith ar adnoddau'r swyddfa.

Cynghori cyrff cyhoeddus: Ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru

20. Pwysleisiodd Dr Llewelyn-Jones bwysigrwydd cynnal cyfathrebu rheolaidd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd fod cyfarfodydd rhwng swyddfa'r Asesydd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i'r ddau sefydliad rannu adborth a thrafod meysydd lle gellid gwella cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

21. Dywedodd Dr Llewelyn-Jones fod ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru wedi arwain at greu pwyllgor cynghori rhanbarthol fel is-gorff o'i bwyllgor rheoli tir a chreu cofrestr gyhoeddus i ganiatáu i'r cyhoedd gael gwybodaeth am faterion llygredd yng Nghymru. Dywedodd y gallai hyn gael effaith sylweddol:

"That is an example of how, perhaps, the way we work, the liaison we have, the good relationships that we've built can actually achieve results and change without, necessarily, the expense and the cost of a report and the time being spent in relation to that."

Ein barn ni

Amlygodd ein gwaith craffu yr heriau parhaus mewn perthynas â llunio adroddiadau, ac mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau o ran adnoddau. Er bod penodi dirprwyon wedi cynyddu capasiti'r swyddfa, mae oedi wrth gyhoeddi adroddiadau pwysig, megis y rhai ar goedwigaeth a gwrychoedd, yn parhau i fod yn bryder. Byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau yn y maes hwn dros y flwyddyn i ddod.

Rydym yn nodi ymdrechion parhaus yr Asesydd a'i swyddfa i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd a barn yr Asesydd bod y cynnydd mewn cyflwyniadau yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol o rôl yr Asesydd. Fodd bynnag, mae heriau o hyd o ran sicrhau bod y cyhoedd yn cael yr holl wybodaeth am sut i ymgysylltu â'r swyddfa yn effeithiol. At hynny, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn cydnabyddiaeth yn golygu cynnydd pellach mewn

cyflwyniadau, a fydd yn debygol o effeithio ar gapasiti'r swyddfa. Rhaid i'r mater hwn barhau i gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru.

Nodwn y sylwadau cadarnhaol gan yr Asesydd am waith agos ei swyddfa gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ymgysylltiad anffurfiol hwn a'r gwaith o feithrin perthnasoedd yn agwedd bwysig ar waith y swyddfa y mae angen parhau i'w datblygu, er ein bod yn cydnabod y bydd hyn, unwaith eto, yn gofyn am adnoddau.

Argymhellion

Argymhelliad 4. Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru adolygu'r effaith bosibl o gynyddu cyflwyniadau'r cyhoedd ar gapasiti'r Asesydd, gyda'r bwriad o wneud yr achos dros gael adnoddau ychwanegol i reoli galw yn y dyfodol, os bydd angen.

4. Trefniadau llywodraethu parhaol

22. Yn gynnar yn 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Bapur Gwyn gyda chynigion ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol, egwyddorion amgylcheddol a thargedau bioamrywiaeth. Disgwylir y Bil cysylltiedig ym mlwyddyn olaf tymor y Senedd hon. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wrth y Pwyllgor hwn ar 26 Mehefin ei bod yn annhebygol y bydd y corff newydd yn cael ei sefydlu yn ystod tymor y Senedd hon.

Trefniadau llywodraethu parhaol

23. Pwysleisiodd Dr Llewelyn-Jones ac Anna Heslop y brys i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol. Pwysleisiodd Dr Llewelyn-Jones hefyd bwysigrwydd sicrhau trosglwyddiad esmwyth o'r trefniadau interim i'r corff parhaol. Dywedodd fod y mater hwn yn cael ei drafod gyda thîm llywodraethu amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

24. Dywedodd Dr Llewelyn-Jones fod ei swyddfa wedi cyfarfod â rhanddeiliaid i gasglu eu barn ar sefydlu'r corff parhaol. Dywedodd ei bod yn ystyried paratoi adroddiad ar brofiadau'r asesydd interim, gan ganolbwyntio ar "beth yn ni wedi dysgu dros y tair blynedd ddiwethaf".

25. Mewn ymateb i gwestiwn, cydnabu Dr Llewelyn-Jones fanteision sefydlu corff cysgodol i hwyluso'r trawsnewid, yn debyg i'r dull a ddefnyddiwyd gyda Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor mai "dyna'r math o drafodaethau yn ni yn eu cael gyda'r adran sydd yn datblygu hyn".

26. Can gyfeirio at y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y cynigion ar gyfer y corff llywodraethu newydd, nododd Dr Llewelyn-Jones nad oedd gan yr Asesydd unrhyw sylwadau penodol ar hyn o bryd.

Trefniadau olyniaeth

27. Penododd Llywodraeth Cymru Dr Llewelyn-Jones fel yr Asesydd ar 24 Chwefror 2021, am hyd at ddwy flynedd i ddechrau. O ystyried anghenion esblygol y swyddfa a'r cynnydd o ran datblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol, estynnwyd ei rôl yn gyntaf o fis Chwefror 2023 i fis Chwefror 2024 ac eto i fis Chwefror 2025.

28. Atebodd Dr Llewelyn-Jones gwestiynau am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'w holynydd. Dywedodd fod trafodaethau'n

mynd rhagddynt ynghylch dyfodol ei rôl y tu hwnt i fis Chwefror 2025, gan gynnwys a allai fod estyniad pellach neu benodi asesydd newydd.

29. O ran gwytnwch y swyddfa, ychwanegodd Dr Llewelyn-Jones fod y dirprwy aseswyr wedi'u penodi am dymor o dair blynedd i sicrhau parhad ac i atal bylchau posibl rhag dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod pontio i'r corff parhaol.

Ein barn ni

Mae sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddeddfu i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu amgylcheddol. Wrth gwrs, rydym yn croesawu cyhoeddi'r Papur Gwyn yn gynharach eleni a'r ymrwymiad y bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ym mis Mehefin 2025. Fodd bynnag, rydym wedi ein siomi gan y diffyg cyflymder a blaenoriaeth a roddir i'r maes polisi pwysig hwn.

Rydym, droeon, wedi galw am sefydlu corff llywodraethu parhaol ac sy'n weithredol erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Dywedodd y Gweinidog blaenorol ei bod yn anelu at roi'r swyddfa newydd ar waith cyn diwedd tymor y Senedd. Yn fwy diweddar, mae Ysgrifennydd presennol y Cabinet wedi dweud bod y corff yn annhebygol o gael ei sefydlu cyn etholiad nesaf y Senedd. Mae'r gwriad yn yr amserlen yn bryder i'r Pwyllgor hwn. Nawr bod y Papur Gwyn wedi'i gyhoeddi a Llywodraeth Cymru wedi ymateb, dylai nodi'r amserlen ar gyfer sefydlu'r corff newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bydd angen penodi comisiynwyr i'r corff a staff newydd (hyd at tua 20, yn ôl ei ymateb i'r Papur Gwyn), a bydd angen pontio i'r trefniadau newydd o'r gyfundrefn bresennol. Fel y nodir yn ein hadroddiad yn 2023, mae profiad yn Lloegr/Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi dangos y gallai corff newydd fod yn gwbl weithredol o fewn misoedd unwaith y bydd deddfwriaeth ar waith. Bydd sefydlu corff cysgodol yn fuan, fel y gwnaed yn achos Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, yn hwyluso llawer o'r gwaith sylfaenol cyn sefydlu'r corff statudol, gan ganiatáu cyfnod pontio llyfn. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd angen corff cysgodol yng Nghymru, gan fod trefniadau interim eisoes ar waith. Felly, byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o fanylion gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch sut y caiff y cyfnod pontio rhwng y ddau sefydliad ei reoli.

Byddem yn annog yr Asesydd a'i swyddfa i rannu eu harbenigedd a'u profiad gwerthfawr i lywio'r broses bontio. Rydym yn cefnogi awgrym yr Asesydd y byddai ei swyddfa yn paratoi adroddiad 'gwersi a ddysgwyd' fel rhan o'r gwaith hwnnw.

Fel y nodir ym Mhennod 1, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â chyrrff llywodraethu cyfatebol yn Lloegr/Gogledd Iwerddon a'r Alban i lywio'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau parhaol arfaethedig a'r cyfnod pontio iddynt.

Argymhellion

Argymhelliad 5. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi amserlen glir a manwl ar gyfer sefydlu'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd.

Argymhelliad 6. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu camau penodol ar gyfer rheoli'r cyfnod o bontio o drefniadau interim i'r corff llywodraethu newydd, a rhoi eglurder ynghylch sut y cyflawnir hyn yn effeithiol heb gorff cysgodol.

Argymhelliad 7. Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad 'gwersi a ddysgwyd', yn seiliedig ar ei phrofiad o'r trefniadau interim, er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo i gorff llywodraethu parhaol. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i gyhoeddi ymateb i adroddiad yr Asesydd.

Argymhelliad 8. Dylai Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru sicrhau bod yr adroddiad blynyddol nesaf yn nodi manylion am sut y mae'n bwydo i mewn i'r gwaith o sefydlu'r corff newydd.

Argymhelliad 9. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland i lywio'r gwaith o ddatblygu a throsglwyddo'n ddidrafferth i'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol yng Nghymru.